PECYNNAU ADNODDAU

Busnes Cymru | Business Wales



# GWAITH TEG
# GWOBRWYO TEG

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# SUT MAE GWOBRWYO EICH GWEITHIWR YN DEG

Fel cyflogwr, rydych chi'n gwybod mai gwobrwyo gweithwyr yn deg a'u trin ag urddas a pharch yw'r peth iawn i'w wneud. Mae ymchwil wedi dangos yn gyson bod gwaith annheg yn cael effaith niweidiol ar les corfforol a meddyliol gweithwyr. Ond yn ogystal â'r manteision amlwg i'ch gweithwyr, mae rheidrwydd busnes clir hefyd i sefydliadau gyflwyno polisïau Gwobrwyo Teg.



Dyma rai o'r ffyrdd y gall Gwaith Teg fod o fudd i'n heconomi, ein cynhyrchiant a'n perfformiad busnes cyffredinol:

- Mae gweithlu sy'n cael ei wobrwyo a'i werthfawrogi ac yr ymgysylltir ag ef yn deg yn debygol o arwain at well morâl, dealltwriaeth ac ymrwymiad y gweithlu i'r busnes a'i amcanion.
- Gall darparu gwaith teg i'ch gweithwyr, gyda chyflog, telerau ac amodau boddhaol helpu eich busnes i recriwtio a chadw gweithwyr talentog a lleihau costau trosiant staff.
- Mae gweithwyr sy'n cael eu trin yn dda yn y gwaith yn fwy tebygol o fod yn gynhyrchiol ac ymroddedig.
- Bydd cael eich adnabod fel cyflogwr sy'n talu eich staff yn deg ac sy'n cynnig buddion da yn rhoi hwb i'ch enw da.
- Bydd gwobrwyo eich gweithwyr yn deg yn lleihau'r tebygolrwydd o dlodi mewn gwaith ac absenoldeb gweithwyr.

# BETH ALLAF EI WNEUD FEL CYFLOGWR I SICRHAU BOD FY STAFF YN CAEL EU GWOBRWYO'N DEG?

Felly, rydych chi'n deall beth yw Gwobrwyo Teg, ac yn gwybod sut y gallai fod o fudd i'ch busnes a'ch gweithwyr, ond pa gamau allwch chi eu cymryd i'w wireddu yn eich sefydliad?

Dyma rai camau ymarferol i'w hystyried:

## > Gwnewch yn siŵr eich bod yn talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol (CBG) i bob gweithiwr

Mae pobl ledled Cymru yn wynebu heriau go iawn ar hyn o bryd o ran costau byw, sy'n ei gwneud yn bwysicach nag erioed i gyflogwyr ymrwymo i'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Rydym yn deall bod busnesau'n wynebu pwysau ariannol enfawr hefyd, felly efallai na fydd ymrwymo i wario mwy ar gyflogau staff yn ymddangos yn ymarferol. Ond bydd codi cyflogau i lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau eich gweithwyr, ond gall hefyd helpu i ddenu a chadw staff talentog, gan arbed arian i'ch busnes yn y tymor hir.

Er bod y 'Cyflog Byw Cenedlaethol' a bennwyd gan y llywodraeth yn berthnasol i bobl dros 23 oed a hŷn, ac mae wedi'i bennu fel canran o enillion canolrifol, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn berthnasol i bawb dros 18 oed ac mae'n cael ei bennu gan gyfrifiad annibynnol yn ôl costau byw, yn seiliedig ar fasged o nwyddau a gwasanaethau.

Ar hyn o bryd mae tua 500 o gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru, sy'n cyflogi dros 120,000 o weithwyr[1]. Fodd bynnag, gyda 223,000 o bobl yng Nghymru yn dal i ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol, mae angen mwy o gyflogwyr arnom i wneud yr un peth.[2]

## > Ymrwymo i gyflawni achrediad Sylfaenol Cyflog Byw

Os ydych chi eisoes yn talu'r cyflog byw i'ch gweithwyr, gwnewch yn siŵr bod eraill yn gwybod eich bod chi drwy gael achrediad y Sefydliad Cyflog Byw. Mae'r manteision yn amlwg, gyda 93% yn dweud eu bod wedi elwa o achrediad RLW, 86% yn dweud ei fod wedi gwella enw da eu busnes, a 75% yn dweud ei fod wedi cynyddu cyfraddau cymhelliant a chadw gweithwyr[3].

[1] www.livingwage.wales

[2] *Ymchwil y Senedd. Y Cyflog Byw 'gwirioneddol' a gwaith teg: Beth yw'r datblygiadau diweddaraf? Ymchwil y Senedd. [Ar-lein] 18 Tachwedd 2021. [Dyfynnwyd: 6 Mawrth 2022]*

[3] *Prifysgol Caerdydd, Ysgol Fusnes Caerdydd. Profiad y Cyflogwr Cyflog Byw. 2017*

### Byddwch yn ymwybodol o unrhyw anghysondebau yn yr hyn rydych chi'n ei dalu i staff a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw

Mae'n ofyniad statudol bod cyflogwyr gyda 250 o staff neu fwy yn cyhoeddi eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Serch hynny, pa faint bynnag yw'ch busnes, fel cyflogwr gwaith teg mae'n bwysig cymryd camau i fesur, adrodd a mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog o fewn eich gweithlu, yn cynnwys o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.

### Cyflwyno addysg ariannol i weithwyr

Yn ôl Awdurdod Ymddygiad Ariannol y DU, mae 67% o weithwyr yn cael trafferthion ariannol ar hyn o bryd, a gall y straen a achosir gan hyn gael effaith niweidiol ar eu hiechyd, eu cynhyrchiant a'u perfformiad busnes eu hunain[4].

Drwy gyflwyno hyfforddiant ac addysg ariannol sylfaenol i'ch staff, gallwch eu helpu i ddysgu sut i reoli eu harian bob dydd, a lleihau rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â'u pryderon ariannol.

### Meddyliwch am fanteision ariannol ychwanegol y gallwch eu cynnig i helpu eich staff

Cofiwch fod Gwobrwyo Teg yn berthnasol nid yn unig i gyfraddau cyflog ond hefyd i delerau ac amodau eraill, gan gynnwys tâl salwch, tâl mamolaeth a thadolaeth, pensiwn galwedigaethol a chynlluniau buddion. Mae'n cynnwys gwerthuso gwaith yn deg, a thryloywder wrth gyfrifo a dosbarthu cyflogau a buddion. Mae pob math o ffyrdd o wella'r ffordd o wobrwyo staff a gwneud gwahaniaeth go iawn i'w diogelwch ariannol, heblaw am godi cyflogau yn unig.
A allech ystyried cyflwyno cynllun rhannu gweithle neu wella'r cynllun pensiwn, er enghraifft, neu sicrhau darpariaeth sydd yn uwch na'r lefel statudol ar gyfer tâl salwch, tâl mamolaeth a thadolaeth a gwyliau blynyddol?

Efallai y gallech chi gynnig talu rhywfaint o gostau gwaith ymlaen llaw na fydd gweithwyr efallai'n gallu eu fforddio, e.e. costau teithio i weithwyr newydd, i fynd i'r afael â'r rhwystr o symud o fudd-daliadau i waith? Yn olaf, gan ddefnyddio data gweithlu ac ymgysylltu â gweithwyr, mae'n werth targedu unrhyw gymorth ariannol ychwanegol tuag at eich gweithwyr sy'n agored i niwed ac ar incwm is i sicrhau bod eich buddion i weithwyr yn helpu'r rheini sydd eu hangen fwyaf.

[4] www.centreformentalhealth.org.uk

PECYN CYMORTH

# GWOBRWYO TEG



**Rydym wedi paratoi'r pecynnau adnoddau defnyddiol hyn – un ar gyfer pob egwyddor Gwaith Teg – i'ch helpu ar y llwybr tuag at ddod yn gyflogwr Gwaith Teg.**

Un cam allweddol yw sicrhau bod eich staff yn cael eu gwobrwyo'n deg. Mae llu o offer ac adnoddau ar-lein i'ch helpu i roi'r egwyddor hon ar waith ar draws eich sefydliad. Felly rydyn ni wedi casglu rhai o'r rhai mwyaf defnyddiol yma:

**Business in the Community -**
**Cynllun Gweithredu Costau Byw i Fusnesau**

Mae'r canllaw defnyddiol hwn yn nodi cyfres o gamau ymarferol y gall busnesau eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, mewn ffordd a fydd o fudd i weithwyr ac i'r busnes ei hun. Gyda chyngor a phecynnau cymorth wedi'u cynllunio i wella lles ariannol gweithwyr, helpu busnesau i ddeall a gweithredu ar unrhyw fylchau cyflog, a gwybod pwy sydd fwyaf angen cymorth, mae'r cynllun gweithredu'n egluro pam a sut gall busnesau wneud gwahaniaeth go iawn.

Darganfyddwch fwy **yma**.

**Llesiant Ariannol y Cyflogai: Canllaw Ymarferol**

Gan ddarparu cyngor ymarferol i ymarferwyr Adnoddau Dynol a chyflogwyr o bob maint a sector ar sut i weithredu i hyrwyddo a chefnogi lles ariannol eu gweithwyr, mae'r canllaw hwn yn cynnwys pum cam hollbwysig i ddatblygu polisi effeithiol.

Darganfyddwch fwy **yma**.

**Dadansoddiad Bwlch mewn Llesiant Ariannol**

Mae'r adnodd defnyddiol hwn wedi'i ddylunio i helpu cyflogwyr i gynnal Dadansoddiad o'r Bwlch Lles Ariannol yn eu busnes.

Bydd yn meincnodi eu darpariaeth yn erbyn eu cystadleuwyr/cymheiriaid, yn nodi unrhyw gyfleoedd a gollwyd yn eu strategaeth llesiant ariannol, yn tynnu sylw at y camau nesaf ar gyfer gwneud y gorau o'u darpariaeth llesiant ariannol ac yn modelu pa mor gadarn yn ariannol yw eu gweithwyr.

Darganfyddwch fwy **yma**.

**Cyflog Teg a Thaflen Ffeithiau ar Adrodd ar Gyflog**

Mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â thegwch cyflog, gan gynnwys cyflog uchel ac isel, a chyflog cyfartal am waith cyfartal. Mae hefyd yn edrych ar adrodd ar gyflogau, gan amlinellu'r hyn y mae'n rhaid ei ddatgelu ar hyn o bryd o dan gyfraith y DU, yn ogystal â'r hyn y gallai fod ei angen yn y dyfodol. Mae hefyd yn egluro manteision cyhoeddi naratifau cyflog, y gall cyflogwyr eu defnyddio i ddangos eu bod yn ceisio talu eu gweithluoedd yn deg.

Darganfyddwch fwy **yma**.





Cyhoeddwyd Mehefin 2023



Busnes Cymru | Business Wales

Cysylltwch â ni i siarad un-i-un â chynghorydd arbenigol ynghylch sut gall eich busnes wireddu ei uchelgeisiau Gwaith Teg a chymryd camau tuag at fod yn gyflogwr mwy cyfartal, amrywiol a chynhwysol.

Ffoniwch Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu ewch i **Gwaith Teg | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)** i gael rhagor o wybodaeth, cyngor a chymorth am ddim.

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government